


Canllaw Cynllunio Atodol: Cymeriad y Tirwedd



Tachwedd 2009

www.gwynedd.gov.uk

Uned Polisi a Pherfformiad, Gwasanaeth
Amgylcheddol, Adran Rheoleiddo (Cynllunio,
Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd),
Cyngor Gwynedd



CYNNWYS

	Tudalen
CYFLWYNIAD	1
Datganiad am Ymgynghori	1
Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol	1
Beth yw Tirwedd?	1
Beth yw Cymeriad Tirwedd?	2
GOLWG GYFFREDINOL AR DIRWEDD GWYNEDD	2
CEFNDIR POLISI CYNLLUNIO	3
Canllawiau Polisi Cenedlaethol	3
Cyd-destun Polisi Lleol	4
METHODOLEG LANDMAP	7
GOLWG GYFFREDINOL AR ARDALOEDD CYMERIAD TIRWEDD GWYNEDD	8
RHESTR TERMAU	11

ATODIADAU

ATODIAD 1 - Map yn dangos Ardaloedd Cymeriad y Tirwedd (ACT) yn Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd

ATODIAD 2 – Polisiâu perthnasol Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd

ATODIAD 3 – Cysylltiadau defnyddiol

CYFLWYNIAD

Datganiad am ymgynghori

1. Fe fuodd y fersiwn drafft o'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yma'n destun ymgynghoriad cyhoeddus o 19 Mawrth 2009 i 24 Ebrill 2009. Fe gyhoeddwyd rhybudd cyhoeddus yn y Caernarfon & Denbigh Herald ac yn y Cambrian News ar 19 Mawrth 2009 i roi gwybod am yr ymgynghoriad cyhoeddus. 'Roedd copiau o'r CCA ar gael i'w gweld ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, yn y llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar wefan y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fe ofynnwyd am sylwadau gan amryw o unigolion a sefydliadau, a oedd yn cynnwys cynghorau cymuned ac adeiladwyr lleol a'u cynrychiolwyr. Gellir gweld crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd a'r ymateb iddynt mewn dogfen "Datganiad o ymgynghoriad - Rhagfyr 2009".
2. Fe gafodd y sylwadau a'r ymateb iddynt eu craffu gan y Pwyllgor Amgylchedd ar 11 Mehefin 2009. Cafodd y CCA ei fabwysiadu yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 24 Tachwedd 2009.

Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

3. Mae'r CCA yma'n un o gyfres o ganllawiau sy'n ategu polisiau Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Gwynedd mabwysiedig. Cafodd y CDU ei fabwysiadu ar 16 Gorffennaf 2009. Tra mai polisiau'r CDU fydd sail gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio (yn unol â'r hyn a nodir yn rhan 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), mae cynnwys y CCA yn ystyriaeth gynllunio faterol. Bydd y Canllaw hwn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar bob cais cynllunio a allai effeithio ar ffurf, golwg a sefyllfa'r dirwedd adeiledig a naturiol a'i nodweddion. Prif bwrpas y CCA hwn yw cynorthwyo gyda dehongli a chymhwysio polisiau cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â gwarchod a gwella cymeriad tirwedd, ac wrth wneud hynny bydd yn rhoi arweiniad manwl i aelodau'r cyhoedd, datblygwyr, swyddogion cynllunio a phwyllgorau cynllunio'r Cyngor ar faterion cynllunio perthnasol i'r dirwedd.
4. Bydd y CCA hwn yn:
 - Egluro'r fethodoleg sydd wrth wraidd y Canllaw hwn;
 - Cynnig trosolwg ar y gwahanol elfennau sy'n cyfrannu at gymeriad y dirwedd yn Ardal CDU Gwynedd;
 - Cyflwyno'r cyd-destun polisi cynllunio perthnasol mewn perthynas â thirwedd;
 - Egluro'r fethodoleg a ddefnyddir i asesu a phenderfynu ar ardaloedd o wahanol gymeriad tirwedd o fewn Ardal y Cynllun;
 - Pennu nodweddion penodol sy'n unigryw i bob ardal cymeriad tirwedd unigol, a;
 - Darparu canllawiau clir i ddatblygwyr a swyddogion cynllunio ar gyfer pob ardal cymeriad tirwedd.

Beth yw Tirwedd?

5. Tirwedd yw realiti diriaethol yr amgylchedd o'n cwmpas, yr elfennau cyffyrddadwy sy'n rhoi siâp ac amrywiaeth i'n hamgylchedd. Tirwedd hefyd yw'r amgylchedd a ganfyddir, yn weledol yn bennaf, ond hefyd drwy ein synhwyrâu arogli, cyffwrdd a

chlyw. Effeithir ar ein gwerthfawrogiad o dirwedd hefyd gan ein cefndiroedd diwylliannol, a chan fuddiannau personol a phroffesiynol.

6. Mae diffiniad y Confensiwn Tirwedd Ewropeaidd o dirwedd yn un byr ond cynhwysfawr: *'mae tirwedd yn golygu ardal, fel y'i deallir gan bobl, a'i gymeriad yw'r canlyniad o'r gweithrediad a'r rhyngweithiad o ffactorau naturiol a/neu ddynol'*. Tirwedd yw'r man cyfarfod rhwng y gorffennol, presennol a'r dyfodol yn ogystal â rhwng dylanwadau diwylliannol a naturiol. Mae ganddi bresenoldeb ffisegol ac emosiynol ac mae'n gosod y cyd-destun i fywydau pobl. Fe fydd tirweddau'r dyfodol yn parhau i gael eu dylanwadu gan newidiadau i hinsawdd, amaethyddiaeth, tai ac anghenion datblygu, a chan gynnydd duag at gymdeithas carbon isel.
7. Bydd datblygu'n digwydd o fewn sefyllfa tirwedd, ond gall altro'r dirwedd hefyd drwy newid ei helfennau a'i nodweddion. Mae'r effaith hon, a allai fod yn arwyddocaol, yn galw am reolaeth drwy'r system gynllunio. Rhan bwysig o'r broses reoli hon yw annog ystyriaeth gynnar i dirwedd wrth leoli a dylunio cynigion datblygu. Mae'r Canllaw hwn wedi'i lunio i hwyluso ystyriaeth o'r fath.
8. Mae asesu cymeriad tirwedd yn arf defnyddiol sy'n sicrhau na fydd datblygiad a newid yn y dyfodol yn tansellio gwerthoedd nodweddiadol y dirwedd.

Beth yw cymeriad tirwedd?

9. Mae cymeriad tirwedd yn cyfeirio at y patrwm arbennig, adnabyddadwy a chyson o elfennau yn y dirwedd sy'n peri bod un dirwedd yn wahanol i'r llall. Mae cymeriad yn peri bod pob rhan o'r dirwedd yn wahanol ac yn rhoi i bob un ei hymdeimlad arbennig o le.
10. I ddeall cymeriad tirwedd unrhyw ardal rhaid ymchwilio'n systemataidd i'r lluo o wahanol ffactorau sydd wedi helpu i greu a dylanwadu ar y lleoliad hwnnw, e.e. daeareg, tirffurf, priodoledau naturiol a dylanwadau defnydd dynol ar y tir ac anheddiad.
11. Asesu cymeriad y dirwedd yw'r broses o rannu'r dirwedd yn 'ardaloedd' o gymeriad cyffredin arbennig, adnabyddadwy a chyson.
12. Bydd y Canllaw hwn yn cyfrannu at gadw a gwella arbenigrwydd ac arwahanrwydd tirweddau ar hyd a lled Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

GOLWG GYFFREDINOL AR DIRWEDD GWYNEDD

13. Yng Ngwynedd y gwelir rhai o'r tirweddau mwyaf godidog trwy Brydain gyfan ac mae wedi esblygu dros filoedd o flynyddoedd. Fe'i crëwyd gan ryngweithiad yr amgylchedd naturiol a gweithgareddau dyn, yn enwedig gan gyfuniad dylanwadau ffisegol, biolegol a diwylliannol.
14. Yn wir, caiff amgylchedd naturiol Gwynedd ei gyfrif ar lefel genedlaethol a rhyngwladol yn amgylchedd o'r ansawdd gorau. Mae'n amgylchedd unigryw ac mae'n amrywio'n sylweddol drwy Ardal gyfan y CDU.
15. Ceir fyrdd o gynefinoedd ar hyd a lled y dirwedd yn adlewyrchu'r cymeriad arfordirol a'r defnydd tir amaethyddol, ac mae nifer o'r rhain o werth a phwysigrwydd cenedlaethol.

16. Cydnabyddir bod amgylchedd naturiol Gwynedd o ansawdd uchel iawn. Mae ansawdd sylfaenol tirwedd Gwynedd wedi'i adlewyrchu yn nifer y dynodiadau tirweddol, ecolegol a hanesyddol sy'n ymwneud â'r ardal.
17. Mae gan Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd fframwaith o ddynodiadau a pholisi'n ymwneud â'r amgylchedd, ac mae hyn oll yn dylanwadu ar y dirwedd yn ei chyfanrwydd. Mae hierarchaeth i'r dynodiadau a'r polisiau, o Ryngwladol i Genedlaethol, Rhanbarthol a lleol. Mae gan yr ardal ddarpariaeth debyg o bolisiau ar gyfer cadwraeth natur, daeareg, a'r etifeddiaeth adeiledig/safleoedd archeolegol, sydd i gyd yn cyfrannu at ansawdd y dirwedd.

CEFNDIR POLISI CYNLLUNIO

18. Mae'r CCA hwn wedi'i seilio ar ganllawiau polisi cenedlaethol, a geir o fewn Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (2002); Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio; a pholisi lleol fel y'i hamlinellir yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

Canllawiau Polisi Cenedlaethol

19. Goblygiadau cyffredinol PCC i awdurdodau cynllunio lleol yw y dylid mynd ati mewn ffordd holistaidd i warchod y dirwedd, gan estyn gofal y tu hwnt i ffiniau safleoedd a ddynodwyd yn statudol. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi bod sylw i faterion tirwedd yn rhan allweddol o gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd.
20. Lle ceir datblygiad mae'n bwysig sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i ddiogelu neu wella ansawdd amgylcheddol tir (para 5.5.1). Mae PCC yn annog trafodaethau cyn llunio cais rhwng datblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol ac ymgynghorwyr statudol fel y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd.
21. Yn seiliedig ar gynnwys PCC, dylai ystyriaethau yn ymwneud â'r dirwedd gynnwys:
 - A yw'r cynnig yn cyfrannu tuag at **gynnal nodweddion lleol fel lletemau glas a mannau agored** ardaloedd?
 - A yw'r datblygiad yn cyfrannu at y **cadwraeth** a'r **gwelliant** yn y dirwedd mewn ardaloedd sydd heb eu dynodi'n statudol, sydd â gwerth mawr arnynt yn lleol a allai gynnwys Ardaloedd Gwarchod Tirwedd a thirweddau ar y Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, neu fel arall gall eu pwysigrwydd fod yn gwbl leol a heb unrhyw warchodaeth arall?
 - A yw'r cynnig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at **ddiogelu a gwella'r amgylchedd**, er enghraifft o ran bioamrywiaeth, ansawdd aer a diogelu adnoddau dŵr?
 - A yw'r cynnig yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at **atgyfnerthu arwahanrwydd traddodiadol a lleol** mewn ardaloedd a gydnabyddir am eu tirwedd, eu trefwedd a'u gwerth hanesyddol?

Pwysigrwydd Ystyriaethau Dylunio

22. Mae cyswllt anorfod rhwng dylunio a thirwedd. Yn wir, gall materion dylunio fod â goblygiadau mawr o ran cymeriad tirwedd. Mae PCC yn ategu'r syniad hwn, gan ddatgan y bydd effaith datblygiad ar y cymeriad presennol, maint a lleoliad datblygiad newydd, a phriodoldeb y defnyddiau adeiladu, yn arbennig o bwysig i dirwedd ardal arbennig (para 2.9.7).
23. Mae Nodyn Cyngor Technegol 12 yn canolbwyntio ar faterion dylunio o fewn cyd-destun cynllunio ac yn amlinellu ystyriaethau pwysig y dylid rhoi sylw iddynt o ran **gwarchod** a **gwella'r** dirwedd. Dywed *“mae'r patrymau anheddu unigryw sy'n nodweddu llawer o Gymru wedi esblygu, yn rhannol, fel ymateb i dirlun a thopograffi amrywiol y wlad. Gan fod perthynas datblygiad a chyd-destun ei dirlun trefol neu wledig yn fater hanfodol i'w lwyddiant, mae dealltwriaeth o ansawdd tirlun yn sylfaenol i'r broses ddylunio.”* (para 5.5.1).
24. Dyma rai pwyntiau eraill yn Nodyn Cyngor Technegol: Dylunio sy'n berthnasol yn nhermau tirwedd:-
- Gan fod perthynas datblygiad â chyd-destun ei dirwedd drefol neu wledig yn fater hanfodol i'w lwyddiant, mae deall ansawdd tirwedd yn sylfaenol i'r broses ddylunio.
 - Ar gyfer datblygiadau mwy, dylid cynnal asesiad strategol o'r dirwedd ar ddechrau'r broses i helpu i ddiffinio gallu'r amgylchedd naturiol i ymdopi â'r datblygiad. Gall cynnal gwerthusiad manwl o'r safle ddarparu gwybodaeth am hydroleg, microhinsawdd, priddoedd, cymunedau planhigion, nodweddion hanesyddol a phob nodwedd weledol megis golygfeydd a fistâu.
 - Dylai atebion dylunio ddangos yn glir sut y bu i'r broses o asesu'r dirwedd a gwerthuso'r safle'n strategol lywio cynigion datblygu a phlannu.
 - Mae cysylltiad clos rhwng elfennau'r dirwedd a thopograffi ac mae angen rhoi ystyriaeth i rinweddau tirwedd yr anheddiad, gan gynnwys eu cyfraniad at olygfeydd a'r cysylltiadau â chefn gwlad agored, yn gynnar yn y broses ddylunio.
 - Dylid ceisio cael hyd i atebion dylunio cynaliadwy sy'n manteisio i'r eithaf ar asedau'r dirwedd ac yn lleihau'r effaith amgylcheddol ar y dirwedd.

Cyd-destun Polisi Lleol

25. Mae Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn cynnwys amrediad o bolisiâu'n ymwneud â chadw a gwella tirweddau ar draws ardal yr Awdurdod.
26. Yng nghyswllt y dirwedd, ac yn unol â chanllawiau polisi cenedlaethol, prif amcan y Cyngor yw **cynnal** a **gwella** ansawdd ac arwahanrwydd ac amwynder yr ardaloedd tirwedd. Dyma'r polisiâu perthnasol allweddol yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd (gellir gweld fersiynau cyflawn o'r polisiâu yn atodiad 2):

Polisi B10 – Diogelu a Chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd

27. Dywed Polisi B10 yr asesir cynigion ar gyfer datblygiad mewn Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd yn erbyn y meini prawf canlynol:

- a) effaith y datblygiad arfaethedig ar nodweddion cadarnhaol y dirwedd a'r elfennau hynny ohoni sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw'r dirwedd leol;
- b) Lleoliad, dyluniad a deunyddiau'r datblygiad arfaethedig a'r modd y gall integreiddio â'r dirwedd;
- c) Buddiannau, economaidd a chymdeithasol y datblygiad arfaethedig mewn perthynas â meini prawf a) a b) uchod.

Dangosir Ardaloedd Gwarchod Tirwedd ar y mapiau cynigion yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

Polisi B11 – Llecynnau Agored Rhwng neu o Fewn Pentrefi a Threfi

28. Mae polisi B11 yn sicrhau y gwrthodir cynigion fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i swyddogaeth neu bwysigrwydd llecynnau agored rhwng pentrefi/drefi. Bydd yr ACLI yn ystyried y ffactorau canlynol er mwyn asesu effaith datblygiad arfaethedig ar swyddogaeth neu bwysigrwydd llecyn agored dynodedig:

- a) effaith y datblygiad ar gymeriad yr amgylchedd adeiledig;
- b) effaith y datblygiad ar y dirwedd leol;
- c) yr angen i'r datblygiad gael ei leoli yn y fan honno;
- ch) effaith y datblygiad ar werth ecolegol, daearegol neu archeolegol y safle;
- d) effaith y datblygiad ar fwynderau trigolion lleol.

Polisi B12 – Gwarchod Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol

29. Mae Polisi B12 yn sicrhau y gwrthodir cynigion sydd du mewn neu ar safleoedd sy'n weladwy o barc a gardd a nodwyd ac a ddisgrifwyd yn Rhan 1 y Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru os byddant yn achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad. Mae'r polisi hefyd yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwarchod tirweddau hanesyddol sydd wedi'u hadnabod yn Rhan 2 o'r un Gofrestr. Rhestrir y rhai sydd wedi'u henwi i'w gwarchod yn Ardal Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn natganiad ysgrifenedig y CDU a'u dangosir ar fap cynigion y CDU, Ceir gwybodaeth am eu priodoleddau yn y gofrestr, y mae gan y Cyngor gopi ohoni. Yn ogystal â hyn, dros y blynyddoedd diwethaf, mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd wedi bod yn ymglymedig mewn gwaith o archwilio cymeriad hanesyddol ardaloedd a ddiffiniwyd gan y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn rhan o brosiect cenedlaethol sydd wedi ei noddi gan CADW, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a ICOMOS DU sydd yn amlinellu'r prif nodweddion hanesyddol o'r ardal ynghyd ag argymhellion i'w rheoli'n bositif.

Polisi B14– Gwarchod Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri

30. Mae Polisi B14 yn sicrhau ni chaniateir datblygiadau a newid defnydd tir lle byddai'r rhain yn niweidio nodweddion a chymeriad arbennig Parc Cenedlaethol Eryri trwy un ai ymwthio'n sylweddol yn weledol, a/neu eu bod wedi eu lleoli'n

ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd. Amcan y polisi yw sicrhau fod y tir sydd o gwmpas y Parc yn cael ei warchod rhag datblygiadau anaddas neu ddi-lun. Mae'n hanfodol sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiadau newydd yn amharu ar amwynderau gweledol a thirwedd y Parc Cenedlaethol. Bydd gofyn i unrhyw ddatblygiad a ganiateir ger ffin y Parc weddu i'r dirwedd a bydd rhaid ei ddylunio a'i leoli fel ei fod yn llesol i olwg yr ardal.

Polisi B27 – Cynlluniau Tirlunio

31. Nod Polisi B27 yw darparu tirwedd o ansawdd uchel priodol i'r safle a'r lleoliad. Mae'n sicrhau y caiff cynigion eu cymeradwyo ar yr amod y darperir tirlunio meddal/caled o ansawdd uchel priodol i'r safle a'r lleoliad, a lle bynnag y bo modd, y caiff nodweddion sy'n rhan o'r dirwedd, fel coed, gwrychoedd a chyrsgiau dŵr, eu gwarchod a'u gwella. Yn 2001, cyhoeddodd y Cyngor gyfres o ganllawiau, yn cynnwys Y Tirlun yn Gweithio Dros Wynedd 2001 sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r asesiad LANDMAP. Mae hon bellach wedi'i diweddarau i adlewyrchu gwybodaeth newydd. Enwodd yr asesiad 16 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT). Mae gan bob ACT ei thirwedd arbennig ei hun. Eglurir mewn mwy o fanylder oblygiadau cynllunio'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd hyn yng nghyd-destun cynllunio ym mharagraffau 46 i 53.

Polisi B22 – Dyluniad Adeiladau

32. Mae Polisi B22 yn gofyn bod cynigion datblygu'n cydymffurfio â'r meini prawf canlynol:
- a) bod y cynnig yn parchu'r safle a'i gyffiniau o ran ei raddfa, maint, ffurf, dwysedd, lleoliad, cynllun, cymesuredd, ansawdd ac addasrwydd deunyddiau, agwedd, microhinsawdd a dwysedd defnydd tir/adeiladau a'r gwagleoedd o gwmpas a rhwng adeiladau;
 - b) nad yw'n cael effaith andwyol annerbyniol ar ffurf a chymeriad y dirwedd neu drefwedd o'i gwmpas, na'r amgylchedd naturiol neu hanesyddol lleol;
 - c) nad yw'n cael effaith andwyol annerbyniol ar olygfeydd amlwg sydd gan y cyhoedd i mewn i, allan o neu ar draws canolfan, pentref, pentrefi gwledig neu gefn gwlad agored.
33. Mewn achosion penodol a ddisgrifir yn y Polisi, bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno Datganiad Dylunio gyda'u cais. Anogir darpar ddatblygwyr i drafod a fydd angen datganiad dylunio, a gofynion y Datganiadau, gyda swyddogion cynllunio cyn cyflwyno cais cynllunio.
34. Mewn amgylchiadau priodol, dylai ymgeiswyr wneud datganiad penodol ynghylch sut yr ymatebwyd i gyfleon i hybu cymeriad tirwedd a lleihau bygythiadau fel rhan o ddatganiad dylunio. Gallai datganiadau ystyried y canlynol:
- i) Pa ardal cymeriad tirwedd mae'r cynnig ynddi ac, yn fwy penodol, beth yw cymeriad tirwedd y safle a'i lleoliad (gweler paragraffau 46-53 am fwy o fanylion)?
 - ii) Sut mae'r cynigion yn rhoi ystyriaeth i gymeriad, cyflwr a sensitifrwydd y dirwedd?

- iii) Beth yw'r effaith ar y nodweddion ac elfennau cymeriad a ddiffiniwyd ac yn sgîl hynny ar ymdeimlad pobl o le?
 - iv) Pa mor arwyddocaol yw'r effaith hon o ran natur yr effeithiau, eu maint a'u parhad, a'r bobl yr effeithir arnynt?
 - v) Pa gamau lliniaru eilaidd a gynigir i wneud iawn am effeithiau negyddol y cynigion?
 - vi) Sut y bydd y datblygiad yn cyfrannu at amcanion polisi atal effeithiau annerbyniol ar y dirwedd a gwarchod (cadw, gwella, atgyfnerthu a/neu greu) cymeriad tirwedd leol?
35. Mae'n bwysig cofio y dylid darllen CDU Gwynedd fel cyfanwaith wrth asesu ceisiadau cynllunio ac efallai bod Polisiâu eraill a all fod yn anuniongyrchol berthnasol i Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (gweler paragraffau 46 i 53) yr awdurdod cynllunio lleol a gaiff sylw gan y Cyngor pan fydd yn ystyried ceisiadau cynllunio.
36. Gall y polisiâu hyn ymwneud â materion fel cadwraeth natur, cynefinoedd, coed, treftadaeth a dylunio a hamdden a all ddylanwadu ar ddefnydd y dirwedd, ac effeithio ar ei chymeriad felly.
37. Bydd cynnwys polisiâu cymeriad tirwedd yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn helpu i sicrhau yr ategir penderfyniadau ynglŷn â'r dirwedd wledig gan asesiad cadarn, a dderbynnir yn gyffredinol, o gymeriad y dirwedd.

METHODOLEG LANDMAP

38. Mae LANDMAP yn System Gwybodaeth Ddaearyddol Cymru gyfan sy'n seiliedig ar adnoddau tirwedd pan gaiff nodweddion, rhinweddau a dylanwadau tirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso mewn set ddata cyson cenedlaethol. Mae astudiaeth LANDMAP Gwynedd wedi ei gwblhau mewn cyfuniad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC).
39. Mae LANDMAP yn broses asesu tirwedd aml-agwedd sy'n cofnodi gwybodaeth am y dirwedd ffisegol, ecolegol, gweledol, hanesyddol a diwylliannol er mwyn hybu proses o wneud penderfyniadau cynaliadwy am y dirwedd. Mae LANDMAP yn cynnwys pum Agwedd wedi'u Gwerthuso (setiau data o wybodaeth) a elwir yn Dirwedd Ddaearyddol, Cynefinoedd Tirwedd, Gweledol a Synhwyraidd, Tirwedd Hanesyddol a Thirwedd Ddiwylliannol. Mae'n galluogi nodi a disgrifio'r agweddau hyn i ddangos beth sy'n rhoi i ardal ei hymdeimlad o le, yn ei gwneud yn arbennig ac yn wahanol i ardaloedd eraill, a pha fath o newidiadau a phwysau y gallai'r dirwedd fod yn sensitif iddynt. Bydd gwybodaeth o'r fath yn gymorth i ddeall tirwedd yr ardal a bwriedir iddi alluogi rheoli newid yn y dirwedd mewn modd priodol ynghyd â hyrwyddo gwneud penderfyniadau cynaliadwy ynglŷn â'r dirwedd.
40. Caiff Gwybodaeth LANDMAP ei chasglu mewn dull strwythuredig a manwl sy'n cael ei ddiffinio gan Fethodoleg LANDMAP. Dim ond arbenigwyr o fewn eu priod feysydd sy'n gallu casglu Gwybodaeth LANDMAP. Mae'r fethodoleg ar gyfer datblygu Gwybodaeth LANDMAP yr un peth ar gyfer pob un o'r pum agwedd wedi'u gwerthuso. Mae arbenigwyr yn casglu Gwybodaeth LANDMAP mewn dull strwythuredig a thrylwyr sy'n cael eu diffinio gan fethodoleg LANDMAP

(diweddarwyd yn 2008). Mae gan bob agwedd sydd wedi'u gwerthuso ei phennod fethodolegol fanwl ei hun sy'n nodi'r ymagwedd, y wybodaeth sydd i'w chasglu a diffiniadau o'r termau a ddefnyddir i sicrhau cysondeb. I ddechrau, caiff yr ardal astudio (Awdurdod Cynllunio yn ôl y diffiniad) ei dosbarthu'n ardaloedd daearyddol arwahanol, a gelwir y rhain yn ardaloedd agwedd. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r system ddsbarthu hierarchaidd sy'n unigryw i bob Agwedd wedi'i Gwerthuso.

41. Ar ôl diffinio'r ardaloedd agwedd, caiff cofnodion arolwg (a elwir yn arolygon Casglu) eu cwblhau ar gyfer pob ardal agwedd a nodwyd. Mae'r arolwg Casglu'n disgrifio ac yn dogfennu cymeriad, rhinweddau a nodweddion y dirwedd. Caiff argymhellion rheoli eu cofnodi ar gyfer pob ardal agwedd, yn ogystal â gwerthusiad o werth. Cwblheir adroddiad technegol ar gyfer pob ardal astudiaeth agwedd wedi'u gwerthuso. Mae'r ymagwedd fethodolegol a'r set safonau sicrwydd ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Wybodaeth fod yn gadarn, a bod y dystiolaeth yn seiliedig ar Sicrwydd Ansawdd a'u bod yn cael eu harchwilio'n drylwyr. Cam olaf pwysig yn y broses yw'r Asesiad Sicrwydd Ansawdd i ddilysu bod Gwybodaeth LANDMAP o safon gyson, gywir ac o'r safon uchaf.
42. Mae System Wybodaeth LANDMAP yn fethodoleg a gymeradwyir ym Mholisi Cynllunio Cymru (2002) (fel y'i diwygiwyd). Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 2002 yn cydnabod bod LANDMAP *“yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth y gall awdurdodau cynllunio lleol ei defnyddio i wneud yr asesiadau tirwedd sydd eu hangen ar gyfer llunio polisiau lleol a chanllawiau ac i wneud penderfyniadau yn y maes hwn”* (para 5.3.13). Dywed PCC (2002) hefyd y gall asesiadau LANDMAP *“helpu i roi gwybodaeth i lunio canllawiau cynllunio atodol ar asesu tirwedd.”* (para 5.3.13).
43. Ategir hyn gan Nodyn Cyngor Technegol 12 ar Ddylunio sy'n datgan hefyd y gall LANDMAP *“ddarparu sylfaen o wybodaeth a fframwaith ar gyfer dylunio a rheoli da. Gall gyfrannu hefyd o bosibl at ddatblygu canllawiau dylunio a CCA ar gyfer ardaloedd gwledig ac ar gyfer datblygiadau mwy.”* (para 5.15).
44. Mae'r ddogfen hon yn cyflawni hynny drwy gysylltu'r astudiaeth LANDMAP leol â'r broses gynllunio, gan danlinellu ei phwysigrwydd fel pwynt cyfeirio allweddol wrth ddehongli polisiau cynllunio ac asesu ceisiadau cynllunio. Gellir gweld gwybodaeth LANDMAP ar wefan CCGC yn www.ccw.gov.uk/landmap
45. Mae methodoleg LANDMAP wedi galluogi dynodi Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT) neilltuol a gyfeirir atynt yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd ac a ddangosir yn Atodiad 1 o'r Cynllun. O ganlyniad i broses LANDMAP, llwyddwyd i enwi 'rhinweddau arbennig' ardal Cynllun Gwynedd, yn enwedig o'u mynegi trwy nodi priodoleddau allweddol unrhyw un ACT benodol. Rhoddir manylion pellach ynghylch Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn yr adran sy'n dilyn. Mae'r “Canllawiau Tirlun” (2009) diwygiedig yn rhoi golwg gyffredinol ar y gwahanol ardaloedd cymeriad a nodwyd gan y broses LANDMAP ac yn cyflwyno'r pynciau tirwedd allweddol ar gyfer pob math o dirwedd.

GOLWG GYFFREDINOL AR ARDALOEDD CYMERIAD TIRWEDD GWYNEDD

46. Mae'r asesiad LANDMAP wedi dangos bod tirwedd Gwynedd yn amrywiol ac o safon uchel iawn.

47. Mae Strategaeth Tirwedd Gwynedd, a seiliwyd ar fethodoleg LANDMAP, wedi enwi a mapio 16 Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) neilltuol o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Dangosir y rhain yn atodiad 1.
48. Mae pob ACT yn ardal unigryw â'i hunaniaeth arbennig ei hun. Mae'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn darparu dull strategol o ddsbarthu'r dirwedd. Fe'u ffurfir trwy ddistyllu'r wybodaeth ac yn enwedig y ffiniau Ardal Agwedd a ffurfiwyd yn ystod y broses LANDMAP. I wneud hyn cyfunir gwybodaeth o bob un o bum Agwedd elfennau "gwerthusedig" LANDMAP (Tirwedd Ddaearegol, Cynefinoedd Tirwedd, Gweledol a Synhwyrdd, Tirwedd Hanesyddol a Thirwedd Ddiwylliannol) i ffurfio ardaloedd tirwedd sydd yn gyffredinol yn debyg eu natur o fewn eu ffiniau ond yn wahanol i'r ardaloedd tirwedd nesaf atynt.
49. Mae'r dalenni data ACT yn y "Canllawiau Tirlun" (2009) diwygiedig wedi'u trefnu yn y fath fodd fel ag i ganiatáu cymathu prif briodoleddau pob ACT sydd wedi'i diffinio o fewn Ardal y CDU yn rhwydd. Mae'r dalenni gwybodaeth yn amlygu'r cwestiynau tirwedd allweddol sydd i'w hystyried mewn cysylltiad â chynigion datblygu o fewn pob math o ardal. Mae'r materion hyn wedi'u trefnu dan benawdau perthynol i swyddogaethau a ffurfiau tirwedd benodol. Gellir eu defnyddio fel awgrymiadau er mwyn penderfynu beth y dylai cynnig ei ddangos neu roi ystyriaeth iddo er mwyn sicrhau y gwarchodir tirweddau. Mae fformat y wybodaeth yn rhoi:
- i) disgrifiad byr o'r ardal cymeriad tirwedd
 - ii) map lleoliad yn dangos ffin yr ardal cymeriad tirwedd
 - iii) materion dylunio allweddol pob ACT, ac
 - iv) y materion sy'n debygol o wynebu pob ACT yn y dyfodol.
50. Yn ogystal, gellir gweld manylion mwy penodol i le arbennig yn fersiwn digidol yr astudiaeth LANDMAP ar wefan CCGC. Anogir defnyddwyr i gael y wybodaeth o'r wefan hon er mwyn cael golwg fwy cynhwysfawr ar werth tirwedd safle arbennig.
51. Wrth asesu ceisiadau cynllunio sy'n debygol o gael effaith ar gymeriad y dirwedd, dylid edrych ar gynigion ochr yn ochr â'r datganiadau ardal cymeriad tirwedd berthnasol a, lle bo'n briodol, y wybodaeth fanwl fwy penodol sydd ar gael ar wefan y Cyngor Cefn Gwlad. Dylid asesu'r wybodaeth hon mewn achosion pan all ddatblygiadau gael ardrawiad ar ffurf, ymddangosiad, gosodiad a nodweddion y dirwedd adeiledig a naturiol. Ble'n briodol, bydd gofyn i geisiadau cynllunio ddangos sut y maent wedi rhoi sylw i CCA Tirwedd Gwynedd. At hynny, lle bo safle ar neu'n agos at ffin ardal cymeriad arall, neu lle mae'r effeithiau gweledol potensial yn rhai pellgyrhaeddol, rhaid cyfeirio at yr ardal(oedd) cymeriad cyfagos hefyd.
52. Wrth asesu effaith cynnig datblygu ar nodweddion ardal cymeriad tirwedd benodol, dyma rai cwestiynau y dylid eu hystyried:
- i) A ydyw math, maint neu ffurf y datblygiad yn debygol o achosi newid gweladwy i'r safle a'i leoliad?
 - ii) A fyddai datblygiad yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw nodweddion allweddol?
 - iii) A fyddai datblygiad neu ddefnydd tir yn gwrthdaro â materion dylunio allweddol yr ardal?
 - iv) A fyddai datblygiad neu ddefnydd tir yn ategu'r strategaeth reoli cyffredinol a'r canllawiau a geir yn y datganiadau ardal cymeriad tirwedd?

- v) Pa newidiadau sydd wedi eu gwneud i weddu â chymeriad y dirwedd leol fel y'i hadnabuwyd gan adnoddau tirwedd?
53. Dylid cymryd cyfleon i wella cymeriad tirwedd a lleihau effeithiau negyddol arni drwy broses leoli a dylunio'r datblygiad. Gellir eu sicrhau trwy amodau cynllunio lle bo angen. Isod amlinellir rhai o'r ystyriaethau tirwedd cyffredinol wrth asesu ceisiadau cynllunio:
- i) bod y datblygiad yn gydnaws â'r ardal o'i amgylch yn nhermau graddfa, maint, ffurf, dwysedd, lleoliad, cynllun, cymesuredd, ansawdd ac addasrwydd defnyddiau, agwedd, microhinsawdd a dwysedd adeiladu/defnydd tir a'r gofod rhwng adeiladau;
 - ii) ymgorffori nodweddion neu fanylion tirwedd allweddol o fewn y datblygiad, e.e. gwrychoedd, waliau traddodiadol, lle i blannu rhywogaethau brodorol ac ati;
 - iii) gwarchod nodweddion tirwedd allweddol fel coed, gwrychoedd a llystyfiant arall rhag cael eu symud a'u niweidio yn ystod gwaith adeiladu;
 - iv) adennill ac adfer tir halogedig;
 - v) sicrhau bod datblygiad a adeiledir o'r newydd yn cadw ac, os yn briodol, yn gwella cymeriad tirwedd arbennig;
 - vi) ceisio cynnal gorchudd tir nodweddiadol, patrymau llystyfiant, cyfuchliniau a gweadau'r dirwedd a'i gwerth ecolegol a diwylliannol; annog creu, adfer a rheoli 'tirweddau mosaig' trwy adfer amrywiaeth o gynefinoedd lled naturiol;
 - vii) na fydd y datblygiad yn peri niwed arwyddocaol i olygfeydd pwysig i mewn i, allan o nac ar draws canolfannau, pentrefi, pentrefi gwledig na chefn gwlad agored;
 - viii) cefnogi gwell rheolaeth tir trwy dechnegau ffermio cynaliadwy;
 - ix) gwarchod a gwella nodweddion cadwraeth natur a gwneud darpariaeth ar gyfer eu rheoli.
 - x) Nad yw llonyddwch ardaloedd yn cael ei gyfaddawdu gan ddatblygiad amhriodol e.e. cynlluniau golau

Rhestr Termiau

Agwedd – Thema neu haen o wybodaeth tirwedd. Mae LANDMAP yn asesu pum gwahanol Agwedd sef: Tirwedd Ddaearegol, Cynefinoedd Tirwedd, Gweledol a Synhwyrdd, Tirwedd Hanesyddol, a Thirwedd Ddiwylliannol.

Ardal Agwedd – Ardal ddaearyddol arwahanol o gymeriad cymharol homogenaidd a nodir o fewn agwedd benodol. Yn GIS, caiff ei gynrychioli gan bolygon unigol. Gall agwedd [wedi'i gwerthuso] fod yn weledol a synhwyrdd, tirweddau daearegol, cynefinoedd tirwedd, tirwedd hanesyddol neu dirwedd ddiwylliannol.

Cymeriad (yng nghyswllt cymeriad y tirlun) – nodwedd unigryw amlwg a greir gan gyfuniad penodol o amrywiadau ar agweddau, fel y'u hamlygir mewn patrymau penodol o elfennau. Nid yw'n arwydd bod ardal yn well neu'n waeth nag ardal arall.

Cadw/cadwraeth (yng nghyswllt cymeriad tirlun) – camau a gymerir i gynnal nodweddion a chyfuniadau o nodweddion mewn cyflwr da; gall gynnwys mesurau lliniaru.

Elfen (yng nghyswllt cymeriad tirlun) - cydran ffisegol o'r tirlun y gall fod iddo arwyddocâd diwylliannol (e.e. ffordd, perth, coeden).

Gwella/gwelliant (yng nghyswllt cymeriad tirlun) – camau gweithredu i wella cyflwr neu gymeriad ardal trwy adnewyddu, atgyfnerthu, creu neu ail-greu.

Nodwedd (yng nghyswllt cymeriad tirlun) - elfen drawiadol neu amlwg (e.e. brigiad creigiog, tŵr eglwys) neu batrwm o elfennau (e.e. gorchudd llawr penodol) sy'n cyfrannu at gymeriad y tirlun.

GIS - casgliad trefnus o galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol sydd wedi ei ddylunio er mwyn creu, trin, dadansoddi ac arddangos bob math o ddata daearyddol neu ofodol.

LANDMAP - system arbennig gwybodaeth tirwedd genedlaethol. Mae gwybodaeth am y dirwedd yn cael ei gasglu, ei fapio, ei drefnu a'i ddadansoddi drwy ddefnyddio methodoleg sy'n gyson yn genedlaethol.

Ardal Cymeriad Tirwedd (ACymT) - Ardal ddaearyddol arwahanol o gymeriad cymharol homogenaidd a nodir o ddadansoddiad strwythuredig o'r pump agwedd LANDMAP a werthuswyd. Seliwyd yr ardaloedd hyn ar eu nodweddion yn hytrach na gwerth eu tirwedd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC) – dogfen a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno'r polisiau cynllunio cenedlaethol.

Diogelu (yng nghyswllt cymeriad tirlun) – dull rhagweithiol o gynnal cyfanrwydd cymeriad tirlun ardal trwy gyfuniad o greu, adfer, atgyfnerthu a chadwraeth. Gall ymwneud lawn cymaint â chryfhau cymeriad ardal ag atal bygythiadau uniongyrchol.


Sicrhau Ansawdd - y dyluniad a'r gweithrediad o weithgareddau wedi eu hanelu at atal problemau ansawdd

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) – arweiniad anstatudol a gynhyrchir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n rhoi eglurhad pellach ar rai polisiau a chynigion a gyflwynwyd yn y Cynllun Datblygu Unedol.

Cynllun Datblygu Unedol (CDU) – dogfen sy'n cyflwyno'r polisiau cynllunio strategol a manwl ar gyfer ardal awdurdod lleol, ac sydd wedi'i llunio i gyflawni nodau ac amcanion penodol.

ATODIAD 1

ARDALEOEDD CYMERIAD Y TIRWEDD GWYNEDD



ATODIAD 2

POLISI B10 - DIOGELU A CHYFOETHOGI ARDALOEDD GWARCHOD Y DIRWEDD

Bydd cynigion datblygu mewn Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- 1. effaith y datblygiad arfaethedig ar nodweddion cadarnhaol y dirwedd a'r elfennau hynny ohoni sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw tirwedd leol;**
- 2. lleoliad, dyluniad a deunyddiau'r datblygiad arfaethedig a'r modd y gall integreiddio â'r dirwedd;**
- 3. buddiannau economaidd a chymdeithasol y datblygiad arfaethedig mewn perthynas â meini prawf 1 a 2 uchod.**

Bydd yn rhaid i bob datblygiad gael ei ddylunio a'i dirlunio i safon dda. gan sicrhau y cynhwysir elfennau tirwedd priodol sy'n gweithredu fel mesurau lliniaru neu a fyddai'n bwysig i sicrhau integreiddiad. Rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth a ddarparwyd gan system wybodaeth LANDMAP ynglŷn â chymeriad ac ansawdd y dirwedd ym mhob ardal.

3.3.9 Eglurhad - Dangosodd methodoleg system wybodaeth LANDMAP fod ansawdd tirwedd rhannau o ardal y Cynllun yn deilwng i'w dynodi'n Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd. Mae'r ardaloedd fel a ganlyn ac fe'u dangosir ar y Map Cynigion a'r Mapiau Mewnwsod:

1. Ardal Gorllewin Llŷn (tu allan i'r AHNE)
2. Porthmadog a'r cyffiniau
3. Porthmadog – Penrhyndeudraeth
4. Rhosgadfan – Llanberis – Mynydd Llandygái
5. Bethesda – Rachub
6. Cwm Bowydd, Blaenau Ffestiniog
7. Cwmorthin
8. Cwm Teigl
9. Stad y Penrhyn
10. Ardal y Faenol a'r cyffiniau
11. Parc Gwledig i'r gorllewin o'r Groeslon

3.3.10 Amcan y polisi hwn yw sicrhau bod unrhyw ddatblygiad boed yn adeilad newydd, yn gynnig i addasu adeilad neu'n gynnig am ddatblygiad sy'n effeithio ar waliau, cloddiau, gwrychoedd (neu fathau eraill o ffiniau caeau), wyneb caled, coedlannau, cyrsiau dŵr, ac ati, y mae gwir angen ei leoli yn yr Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd yn cynnal, cyfoethogi neu adfer cymeriad ac ansawdd cydnabyddedig yr ardaloedd. Bydd rhaid dangos safon dda o ddylunio, lleoli a thirlunio. Disgwylir gweld defnydd o ddeunyddiau sy'n briodol i'r ardal leol. Rhoddir ystyriaeth i fuddiannau economaidd a chymdeithasol unrhyw ddatblygiad wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Ni chaiff unrhyw niwed i'r dirwedd ei gyfiawnhau heblaw pan fo buddiannau economaidd a/neu gymdeithasol yn drech. Mewn achosion ble mae'r ffactorau hyn yn gorbwyso'r effeithiau niweidiol posib, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ceisio lleihau'r effeithiau hynny, a bydd yn ceisio cynyddu nodweddion o bwysigrwydd i'r eithaf. Bydd yr wybodaeth a ddaeth i law ynglŷn â chymeriad yr ardaloedd yn sgil asesiad LANDMAP, a'r egwyddorion a nodwyd yng Nghanllawiau Dylunio Gwynedd ac yn Y Tirlun yn Gweithio dros Wynedd 2001 i gyd yn cael eu hasesu wrth ystyried pa mor addas fydd pob datblygiad.

3.3.11 Mae pob un o'r Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd, ar wahân i Ardal Pwllheli – Criccieth – Porthmadog, Stad y Penrhyn, Ardal y Faenol a'r cyffiniau, a'r Parc Gwledig i'r gorllewin o'r Groeslon yn ffinio ag un ai AHNE Llŷn neu Barc Cenedlaethol Eryri. Mae pwysigrwydd strategol cydnabyddedig yr AHNE a'r Parc Cenedlaethol yn golygu ei bod yn hollbwysig bod

pob datblygiad ar diroedd sy'n weladwy o'r AHNE neu'r Parc Cenedlaethol, neu a fyddai'n cael effaith ar yr olygfa i mewn i'r AHNE neu'r Parc Cenedlaethol, yn cael eu rheoli'n ofalus iawn. Rhoddir ystyriaeth i'r ffactor hwn wrth ystyried ceisiadau cynllunio am ddatblygiad yn yr Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd perthnasol.

POLISI B11 – LLECYNNAU AGORED RHWNG NEU O FEWN PENTREFI A THREFI

Gwrthodir cynigion fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i swyddogaeth neu bwysigrwydd llecynnau agored rhwng trefi/pentrefi neu lecynnau o fewn trefi neu bentrefi sy'n bwysig i gymeriad gwledig/trefol yr ardal, y dref neu'r pentref.

3.3.12 Eglurhad - Dewiswyd y llecynnau agored sy'n cael eu dangos ar y Mapiau Mewnosodiad am eu bod yn:

- a) gwneud cyfraniad cadarnhaol i ansawdd a chymeriad ffisegol trefi, pentrefi, pentrefi gwledig neu'r dirwedd wledig
- b) darparu bwlch clir rhwng pentrefi a threfi a thrwy hynny'n atgyfnerthu hunaniaeth gymunedol
- c) pwysig i amwynderau trigolion - gwyrddni gerllaw lle maent yn byw, ychwanegu amrywiaeth weledol
- ch) cyswllt pwysig rhwng tref neu bentref a chefn gwlad ehangach sydd tu draw i'w ffiniau
- d) gallu bod o werth ecolegol, daearegol, neu archeolegol lleol

3.3.13 Er mwyn asesu effaith datblygiad arfaethedig ar swyddogaeth neu bwysigrwydd llecyn agored dynodedig, neu unrhyw lecyn arall a ddaw i'r amlwg yn ystod oes y Cynllun sy'n cwrdd ag un neu fwy o'r meini prawf uchod, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y ffactorau canlynol :

- a) effaith y datblygiad ar gymeriad yr amgylchedd adeiledig
- b) effaith y datblygiad ar y dirwedd leol
- c) yr angen i'r datblygiad gael ei leoli yn y fan honno
- ch) effaith y datblygiad ar werth ecolegol, daearegol, neu archeolegol y safle
- d) effaith y datblygiad ar fwynderau trigolion lleol

POLISI B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL

Gwrthodir cynigion sydd tu mewn, neu ar safleoedd sy'n weladwy o barc a gardd a nodwyd ac a ddisgrifiwyd yn Rhan 1 y Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru os byddant yn achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

Rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth am y tirweddau hanesyddol a nodwyd yn Rhan 2 yr un Gofrestr pan asesir effaith cynigion sydd ar y fath raddfa ac mor fawr fel y byddent yn cael effaith fwy nag effaith leol arnynt.

3.3.14 Eglurhad - Mae gwaith ymchwil ar y cyd rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw, Henebion Cymru a'r Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Cofadeiladau a Safleoedd (ICOMOS) wedi cyhoeddi cyfres o gyhoeddiadau ar y cyd dan y teitl 'Cofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru'. Mae rhestr gyflawn o'r

safleoedd sydd ar y Gofrestr yn ardal y Cynllun yn Atodiad 1. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ceisio sicrhau bod y tirweddau, y parciau a'r gerddi hanesyddol a gofrestrwyd yn cael eu gwarchod a'u cyfoethogi.

3.3.15

Wrth benderfynu ar addasrwydd cynigion tu fewn neu wrth ymyl Parciau a Gerddi Hanesyddol sydd wedi eu cofrestru, rhoddir ystyriaeth i effaith y datblygiad ar y nodweddion sy'n gwneud yr ardal yn un bwysig. Defnyddir y broses ASIDOHL (Asesiad o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, ffisegol a nodweddion hanesyddol yr ardal) er mwyn asesu'r effaith ar ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr. Lle bo'n briodol cymeradwyir datblygiad fydd yn cyfoethogi ardal trwy gynnig cyfle i gynnal neu adfer nodweddion traddodiadol.

POLISI B14 – GWARCHOD CYMERIAD TIRWEDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Ni chaniateir datblygiadau a newid defnydd tir lle byddai'r rhain yn niweidio nodweddion a chymeriad arbennig Parc Cenedlaethol Eryri trwy:
1) ymwithio'n sylweddol yn weledol, a/neu
2) eu bod wedi eu lleoli'n ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd.

Eglurhad – Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i warchod tirwedd a gwerth ecolegol y Parc. Mae hyn yn golygu rheoli datblygiad ar dir sydd yn ardal y Cynllun, sydd tu hwnt i ffiniau'r Parc ond o'i gwmpas. Amcan y polisi uchod yw sicrhau fod y tir sydd o gwmpas y Parc yn cael ei warchod rhag datblygiadau anaddas neu ddi-lun. Mae'n hanfodol sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiadau newydd yn amharu ar amwynderau gweledol a thirwedd y Parc Cenedlaethol. Bydd gofyn i unrhyw ddatblygiad a ganiateir gerffin y Parc weddu i'r dirwedd a bydd rhaid ei ddylunio a'i leoli fel ei fod yn llesol i olwg yr ardal.

POLISI B22 – DYLUNIAD ADEILADAU

Gwrthodir cynigion am adeiladau newydd, estyniadau neu addasiadau i adeiladau presennol os na ellir bodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf canlynol:

- 1. bod y cynnig yn parchu'r safle a'i gyffiniau o ran ei raddfa, maint, ffurf, dwysedd, lleoliad, cynllun, cymesuredd, ansawdd ac addasrwydd deunyddiau, agwedd, microhinsawdd a dwysedd defnydd tir/adeiladau a'r gwagleoedd o gwmpas a rhwng adeiladau;**
- 2. nad yw'n cael effaith andwyol annerbyniol ar ffurf a chymeriad y dirwedd neu'r drefwedd o'i gwmpas, na'r amgylchedd naturiol neu hanesyddol lleol;**
- 3. nad yw'n cael effaith andwyol annerbyniol ar olygfeydd amlwg sydd gan y cyhoedd i mewn i, allan o, neu ar draws canolfan, pentref, pentref gwledig neu gefn gwlad agored.**

Gwrthodir cynigion na fyddant yn dangos (trwy ddefnyddio dulliau sy'n gyson â natur, lleoliad a graddfa'r datblygiad arfaethedig) sut mae'r cynigion yn ymgorffori egwyddorion dylunio da. Bydd yn rhaid cynnal Asesiad Dylunio a darparu 'datganiad dylunio' ffurfiol gyda'r cais cynllunio i'r mathau canlynol o ddatblygiadau:

- 1. datblygiadau mawr newydd**

- 2. datblygiadau sy'n debygol o gael effaith weledol sylweddol**
- 3. datblygiadau sy'n effeithio ar safle, ardal neu adeilad sensitif**

- 3.5.2 Eglurhad** - Mae dealltwriaeth o'r berthynas rhwng datblygiad arfaethedig a'r hyn sydd o'i gwmpas yn ogystal â sut mae'r berthynas rhwng yr elfennau unigol o gylch y safle datblygu'n creu cymeriodyn hollol sylfaenol i greu datblygiadau o safon ddylunio dda. Dylid edrych ar nodweddion y safle a'r ardal gyfagos bob tro cyn dechrau paratoi cynlluniau ar gyfer y newidiadau dan sylw. Prif fantais yr agwedd hon yw cael dyluniad sy'n berthnasol i safle penodol, (yn hytrach na chael dyluniad 'parod'), a dyluniad sydd un ai'n cadw unrhyw gymeriad hynod a amlygwyd yn yr asesiad neu sy'n gwrthdroi tueddiadau'r gorffennol lle nad yw patrymau datblygu yn y gorffennol wedi ymateb i'r cyd-destun.
- 3.5.3** Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau - Canllawiau Dylunio Gwynedd 2002, a'r Tirlun yn Gweithio dros Wynedd 2001 i godi ymwybyddiaeth o nifer o egwyddorion dylunio.
- 3.5.4** Bydd angen i bob ymgeisydd gyflwyno deunydd darlunio manwl gyda'r cais cynllunio. Gall ddeunydd darlunio gynnwys ffotograffau o safle'r datblygiad a'i gyffiniau, lluniau o'r dyluniad arfaethedig ei hun, a lle bo'n briodol, cynlluniau o'r gosodiad arfaethedig mewn perthynas â datblygiad a defnydd tir cyfagos. Dylai'r ffordd mae hyn yn cael ei gyflawni fod yn gyson â natur a graddfa'r datblygiad. Mewn rhai achosion, bydd angen cyflwyno Datganiad Dylunio ffurfiol yn ogystal â'r cynlluniau arferol sy'n dangos gwahanol ddrychiadau'r adeilad. Mewn achosion eraill gall eglurhad byr ar bapur fod yn ddigonol. Dylai unrhyw Ddatganiad Dylunio, ffurfiol neu fel arall, a gyflwynir i gefnogi cais cynllunio, ymdrin â dylunio cynaliadwy.
- 3.5.5** Anogir darpar ddatblygwr i drafod yr angen am ddatganiad, ac anghenion y datganiad gyda swyddogion cynllunio cyn cyflwyno cais cynllunio. Dylai'r datganiad egluro'r canlynol:
- yr egwyddorion dylunio a'r cysyniad dylunio
 - sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y datblygiad arfaethedig
 - sut mae'r dyluniad yn gydnaws a'i safle a'r ardal leol, a
 - sut bydd y datblygiad yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun hwn a'r canllawiau y cyfeirir atynt uchod.
- 3.5.6** Gellid ymgynghori hefyd gyda Chomisiwn Dylunio Cymru ar faterion sy'n ymwneud â dylunio. Pwrpas y Comisiwn yw hyrwyddo safonau uchel o ran pensaernïaeth, tirwedd a dyluniad trefol yng Nghymru, ynghyd â hyrwyddo dealltwriaeth eang o bwysigrwydd ansawdd da yn yr amgylchedd adeiledig, cynnal datblygiad sgiliau, annog cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy.

POLISI B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO

Caniateir cynigion ar yr amod bod y cynlluniau'n ymgorffori tirlunio meddal/ caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle a'r ardal leol. Lle bynnag y bo'n ymarferol disgwylir y bydd coed, gwrychoedd, pyllau dŵr, cyrsiau dŵr, nodweddion sy'n gysylltiedig â stadau, cloddiau, ffensys llechi, waliau cerrig ac unrhyw nodweddion eraill sy'n rhan o'r dirwedd yn cael eu gwarchod a'u cyfoethogi. Wrth asesu addasrwydd cynllun tirlunio rhoddir ystyriaeth i'r ffactorau canlynol:

- 1. bod gwaith plannu arfaethedig yn creu cyswllt gyda phlanhigion cyfagos er mwyn ychwanegu at lwybrau a chynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt;**
- 2. sicrhau bod coed a gwrychoedd, nodweddion dŵr ac unrhyw nodweddion eraill ar y safle sy'n bwysig i gymeriad y dirwedd, y**

pentref/ dref neu eu gosodiad; gosodiad Adeilad Rhestredig neu Heneb, ardal gadwraeth neu ei gosodiad, neu i gadwraeth natur yn cael eu cadw ar y safle ac yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod datblygu ac yn y tymor hir ar ôl cwblhau'r datblygiad;

- 3. bod unrhyw blannu coed, blodau gwyllt, llwyni neu wrychoedd newydd yn cael ei wneud yn effeithiol gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol lleol, heblaw am eithriadau, lle na fyddai'r defnydd o rywogaethau brodorol yn gydnaws â chymeriad trech y safle fel y mae ar hyn o bryd;**
- 4. yn achos datblygiad sy'n weladwy o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn neu Fôn neu Barc Cenedlaethol Eryri, bod golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r tirweddau'n cael eu gwarchod.**

Pan ganiateir datblygiad, defnyddir amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio er mwyn sicrhau y bydd mesurau cadw/ gwarchod priodol, gwaith plannu a/ neu waith ôl-ofal yn cael eu rhoi ar waith yn y tymor hir ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau.

3.5.15 Eglurhad - Mae'n bwysig bod materion tirlunio'n cael eu hystyried o'r dechrau fel rhan o ddyluniad y cynllun yn ei gyfanrwydd. Sicrhau bod y datblygiad yn gweddu'n dda gyda'r hyn sydd o'i gwmpas a chreu gosodiad deniadol i'r adeilad(au) ar yr un pryd ddylai'r nod fod bob amser.

3.5.16 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau - Canllawiau Dylunio Gwynedd 2002, a'r Tirlun yn Gweithio dros Wynedd 2007 er mwyn codi ymwybyddiaeth o nifer o agweddau dylunio, ac fe ddylai pob datblygwr roi ystyriaeth i'r rhain. Mae'r ddogfen olaf yn deillio o ganlyniadau astudiaeth LANDMAP. Mae'r asesiad hwn wedi nodi 16 Ardal Cymeriad Tirwedd sy'n cael eu dangos yn Atodiad 2. Mae gan bob un o'r Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd dirwedd sy'n nodweddiadol iddo. Lle bynnag mae yna nodweddion sy'n bwysig i gymeriad a hynodrwydd yr ardal leol, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud ei orau i'w gwarchod. Wrth ystyried cynigion datblygu sy'n effeithio ar goed ceir rhagor o arweiniad mewn Canllawiau Cynllunio Atodol ar Goed a Datblygiad (i'w baratoi).

ATODIAD 3

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Rheolaeth Datblygu (Cynllunio)

Ardal Arfon

Gwasanaeth Cynllunio
Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)
Swyddfa Ardal Arfon
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1BN
Rhif ffôn: (01286) 682765
Rhif ffacs: (01286) 682771
ebost: Cynllunio@gwynedd.gov.uk

Ardal Dwyfor

Gwasanaeth Cynllunio
Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)
Swyddfa Ardal Dwyfor
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA
Rhif ffôn: (01758) 704118
Rhif ffacs: (01758) 704053
ebost: Cynllunio@gwynedd.gov.uk

Ardal Meirionnydd

Gwasanaeth Cynllunio
Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)
Swyddfa Ardal Meirionnydd
Cae Penarlâg
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2YB
Rhif ffôn: (01341) 424414
Rhif ffacs: (01341) 424440
ebost: Cynllunio@gwynedd.gov.uk

Polisi Cynllunio (Arfon, Dwyfor a Meirionnydd)

Uned Amgylcheddol
Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
Rhif ffôn: (01286) 679542
Rhif ffacs: (01286) 673324
ebost: PolisiCynllunio@gwynedd.gov.uk